Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Rhywogaethau goresgynnol estron

## Ebrill 2013

## Cyflwyniad

Rhywogaethau anfrodorol neu 'estron' yw'r rhai sydd wedi cael eu symud y tu hwnt i'w hardal naturiol oherwydd gweithgaredd dyn, naill ai'n ddamweiniol neu'n fwriadol. Os bydd y rhywogaeth yn goroesi wedyn ac yn atgenhedlu yn yr ardal newydd dywedir ei bod wedi ymsefydlu. Caiff rhywogaethau estron eu cyfrif fel rhai goresgynnol pan ystyrir bod eu presenoldeb yn cael canlyniadau negyddol yn yr ardal lle y'u cyflwynwyd, er enghraifft yn achosi dirywiad mewn bioamrywiaeth frodorol, yn achosi difrod economaidd neu'n cael effaith ar iechyd pobl.[1]

Mae cyfradd ymsefydlu'r rhywogaethau goresgynnol estron ym Mhrydain wedi cynyddu'n raddol ers 1800 ac felly mae cyfanswm nifer y rhywogaethau goresgynnol estron wedi codi'n gynt ac yn gynt. Adroddodd astudiaeth a gomisiynwyd gan DEFRA fod 280 rhywogaeth oresgynnol estron ym Mhrydain yn 2012[2], gan gynnwys ffyngau, micro-organebau, planhigion ac anifeiliaid. Rhwng 2000 a 2010, ymsefydlodd cyfartaledd o 1.4 rhywogaeth oresgynnol estron ychwanegol ym Mhrydain bob blwyddyn.[3]

Rhagwelir y bydd cyfradd ymsefydlu rhywogaethau goresgynnol estron yn parhau i godi, gyda thwf mewn masnach a theithio'n cynyddu cyfraddau cyflwyno a newid yn yr hinsawdd a darnio cynefin yn ffafrio rhywogaethau goresgynnol dros rai cynhenid.[4]

## Effeithiau rhywogaethau goresgynnol

Y costau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol estron yw cost yr effeithiau andwyol a achosir ganddynt a'r gost o'u rheoli neu eu dileu. Amcangyfrifodd adroddiad gan CABI (Centre for Agricultural Bioscience International) a gomisiynwyd gan DEFRA fod costau marchnad a achosir gan rywogaethau goresgynnol estron yn £ 1.7 biliwn y flwyddyn yn y DU a £ 125 miliwn y flwyddyn yng Nghymru. Dangosir costau uniongyrchol rhywogaethau goresgynnol estron i sectorau economaidd Cymru yn Nhabl 1.[5]

Gall rhywogaethau goresgynnol estron hefyd achosi costau sylweddol y tu allan i'r farchnad drwy leihau bioamrywiaeth frodorol ac amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau ecosystem.[6] Mae'n anodd iawn amcangyfrif gwerth ariannol yr amhariad ar ecosystemau a achosir gan rywogaethau goresgynnol estron ond darganfu adolygiad o 16 asesiad cyhoeddedig o ddeunydd darllen anfasnachol a gwyddonol fod amcangyfrifon o gostau y tu allan i'r farchnad rhywogaethau goresgynnol estron, ar gyfartaledd, 57 gwaith yn fwy na'r costau marchnad a amcangyfrifwyd. Mae hyn yn awgrymu bod cyfanswm cost rhywogaethau goresgynnol estron yn y DU tua £ 96 biliwn ac yng Nghymru, £ 7 biliwn.[7]

---

[1] Terminoleg fel y'i diffinnir yng **ngeirfa'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol** [Fel ar 13 Mawrth 2013]

[2] H. E. Roy, J. Bacon, B. Beckmann, C. A. Harrower, M. O. Hill, N. J.B. Isaac, C. D. Preston, B. Rathod, S. L. Rorke, J. H. Marchant, A. Musgrove, D. Noble, J. Sewell, B. Seeley, N. Sweet, L. Adams, J. Bishop, A. R. Jukes, K. J. Walker a D. Pearman (2012) **Non-Native Species in Great Britain: establishment, detection and reporting to inform effective decision making.** Canolfan Ecoleg a Hydroleg Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, t110.

[3] *ibid*

[4] Shine, C., Kettunen, M., ten Brink, P., Genovesi, P. & Gollasch, S. 2009. **Technical support to EU strategy on invasive species – Recommendations on policy options to control the negative impacts of IAS on biodiversity in Europe and the EU**. Adroddiad ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd. Sefydliad Polisi Amgylcheddol Ewropeaidd, Brwsel, Gwlad Belg.

[5] F. Williams, R. Eschen, A. Harris, D. Djeddour, C. Pratt, R.S. Shaw, S. Varia, J. Lamontagne-Godwin, S.E., Thomas, S.T. Murphy (2010) **The Economic Cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain** Adroddiad CABI 2010 a gomisiynwyd gan DEFRA

[6] Gweler Hysbysiadau Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil, **Ecosystemau a'r Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem**, Mawrth 2012 [Fel ar 15 Mawrth 2013]

[7] F. Williams, R. Eschen, A. Harris, D. Djeddour, C. Pratt, R.S. Shaw, S. Varia, J. Lamontagne-Godwin, S.E., Thomas, S.T. Murphy (2010) **The**

**Tabl 1: Costau uniongyrchol rhywogaethau ymledol yng Nghymru ynôl sector**

*(£ Miliwn y flwyddyn)*

| Sector | Enghreifftiau | Cost I Gymr |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | Ceirch gwyllt (*Avena fatua*) yn cystadlu ag ydau gwanwyn | 71.11 |
| Coedwigaeth | Hyddod brith (*Dama dama*) yn tynnu rhisgl oddi ar goed gan leihau cynnyrch | 14.95 |
| Dyframaeth | Crancod menigog (*Eriocheir sinensis*) yn bwyta wyau pysgod brodorol | 2.05 |
| Twristiaeth a hamdden | Dail-ceiniog amofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*) yn rhwystro pysgotwyr | 5.76 |
| Adeiladu, seilwaith a thrafnidiaeth | Llysiau'r dial (*Fallopia japonica*) yn gwneud tai a ffyrdd yn ansefydlog | 19.85 |
| Cyfleustodau | Cregyn gleision (*Dreissena polymorpha*) rhesog yn cau pibelli codi dŵr | 0.48 |
| Bioamrywiaeth | Costau mesurau ymchwil a rheoli | 6.22 |
| Iechyd dynol | Efwr enfawr (*Heracleum mantegazzianum*) yn creu brech ar y croen | 5.82 |
| Cyfanswm y costau uniongyrchol | | 125.12 |

*Ffynhonnell: Williams et al. (2010) The Economic Cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain. Adroddiad CABI a gomisiynwyd gan DEFRA*

Gall rhywogaethau goresgynnol estron leihau bioamrywiaeth frodorol mewn nifer o ffyrdd:

- Cystadleuaeth;
- Ysglyfaethu;
- Croesiad;
- Trosglwyddo pathogenau a pharasitiaid.

Mae hyn wedi arwain at ystyried rhywogaethau goresgynnol estron fel un o brif achosion colli bioamrywiaeth fyd-eang.[8]

## Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol

Mae'r partïon i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn cydnabod bod rhywogaethau goresgynnol estron yn fater blaenoriaeth ac yn 2010 cytunwyd ar y targed:

> 'By 2020, invasive alien species and pathways are identified and prioritised, priority species are controlled or eradicated, and measures are in place to manage pathways to prevent their introduction and establishment' (targed 9 Aichi ).[9]

Anogodd y prif egwyddorion y cytunwyd arnynt yn chweched Cynhadledd y Partïon i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn 2002 Aelodau-Wladwriaethau i flaenoriaethu atal cyflwyno rhywogaethau estron, fel y dull mwyaf costeffeithiol o reoli rhywogaethau goresgynnol estron.[10] Mae'r egwyddor hon yn hyrwyddo sganio gorwelion, gyda systemau rhybudd cynnar ac ymateb cyflym, a gwella rheolaethau ffiniau a chwarantîn.

Ar gyfer rhywogaethau goresgynnol estron sydd eisoes wedi ymsefydlu, mae dod o hyd iddynt yn gynnar a'u dileu'n well na'u cyfyngu yn yr hirdymor. Gellir cyflawni hyn drwy ddulliau ffisegol, cemegol neu fiolegol.[11]

## Deddfwriaeth yr UE

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw un darn o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu rheoli rhywogaethau goresgynnol estron ar draws Ewrop. Yn 2003, datblygodd Cyngor Ewrop strategaeth rhywogaethau goresgynnol i hwyluso ymrwymiadau rhyngwladol a hyrwyddo arfer orau ar gyfer lleihau effeithiau andwyol rhywogaethau goresgynnol estron.[12] Mewn ymateb i argymhellion strategaeth 2003, sefydlwyd prosiect Cyflenwi Rhestrau Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar gyfer Ewrop (DAISIE) i gydlynu rhestr o rywogaethau estron goresgynnol ar draws Ewrop.

Yn 2008, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd adroddiad, 'Towards an EU Strategy on invasive species', sy'n amlinellu opsiynau polisi i fynd i'r afael ag effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol.[13] Mewn ymateb i hyn, roedd strategaeth bioamrywiaeth 2020 yr EU, a fabwysiadwyd ym mis Mai 2011, yn cynnwys y targed:

Economic Cost of Invasive Non-Native Species on Great Britain Adroddiad CABI 2010 a gomisiynwyd gan DEFRA [Fel ar 18 Mawrth]

[8] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol Invasive Alien Species Introduction [Fel ar 14 Mawrth 2013]

[9] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, Aichi Biodiversity Targets [Fel ar 15 Mawrth 2013]

[10] Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol COP Decision 6 VI/23 [Fel ar 15 Mawrth 2013]

[11] *ibid*

[12] Genovesi P. a Shine C. (2003) European Strategy on Invasive Alien Species. [Fel ar 18 Mawrth 2013]

[13] Gohebiaeth oddi wrth y Comisiwn i'r Cyngor, C, Senedd Ewrop, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau - Towards an EU strategy on invasive species (2008) [Fel ar 18 Mawrth 2013]

'Establish a dedicated instrument on Invasive Alien Species.'[14]

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n gweithio ar offeryn deddfwriaethol penodol ar Rywogaethau Estron Goresgynnol y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn 2013.

Fodd bynnag, mae nifer o ddarnau presennol o ddeddfwriaeth yr UE mewn perthynas â chadwraeth natur a physgodfeydd sy'n cael effaith ar reoli rhywogaethau goresgynnol estron. Y rhai mwyaf nodedig yw:

- Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar Adar;[15]
- Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar Gynefinoedd;[16]
- Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ar Iechyd Planhigion;[17]
- Rheoliad y Cyngor 708/2007 ar Rywogaethau Estron a rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn dyframaethu;[18]
- Rheoliad y Comisiwn 811/2008 ar atal cyflwyno sbesimenau o rywogaethau penodol o ffawna a fflora gwyllt i'r gymuned.[19]

## Strategaeth Fframwaith ar gyfer Prydain Fawr

Yn 2003, comisiynodd DEFRA adolygiad o bolisi rhywogaethau goresgynnol estron a ddarganfu fod diffyg ymdrechion cydgysylltiedig ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol estron ym Mhrydain ac felly methiant i fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd adnoddau cyfredol.[20] Mewn ymateb i hyn, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain Fawr yn 2005. Nod y Bwrdd Rhaglen yw cyflenwi strategaeth rheoli rhywogaethau goresgynnol estron wedi'i chydlynu ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o DEFRA, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'u hasiantaethau perthnasol.

Cefnogir y Bwrdd Rhaglen gan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron, sy'n gweithredu fel cronfa ddata ganolog ar gyfer gwybodaeth am rywogaethau goresgynnol estron, a Phanel Dadansoddi Risg Rhywogaethau Estron sydd â'r rôl o nodi rhywogaethau goresgynnol estron posibl a llwybrau cyflwyno.

Cynhyrchodd y Bwrdd Rhaglen Strategaeth Fframwaith ar gyfer rhywogaethau goresgynnol estron ym Mhrydain yn 2008.[21] Nid yw'r strategaeth hon yn gyfreithiol rwymol ond mae'n cyflwyno argymhellion allweddol ar gyfer rheoli rhywogaethau goresgynnol estron, fel a ganlyn:

- Datblygu codau ymddygiad cyfrifol er mwyn lleihau cyflwyno rhywogaethau goresgynnol estron i Brydain;
- Datblygu systemau monitro a rhybuddio cynnar;
- Datblygu Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau Goresgynnol unigol sy'n cyflwyno'r opsiwn rheoli gorau ar gyfer pob rhywogaeth oresgynnol estron;
- Sicrhau ymwybyddiaeth gyhoeddus o faterion rhywogaethau goresgynnol estron ac ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Sicrhau bod ymchwil wyddonol yn cefnogi camau gweithredu;
- Gweithredu fframwaith deddfwriaethol cydgysylltiedig.

Mae sawl darn cyfredol o ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i reoli rhywogaethau goresgynnol estron ym Mhrydain. Y mwyaf nodedig yw adran 14 o *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad*

[14] *ibid*
[15] **OJ L 103, 25.4.1979** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[16] **OJ L 206, 22.7.1992** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[17] **OJ L 169, 10.7.2000** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[18] **OJ L 168, 28.6.2007** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[19] **OJ L 219 , 14/08/2008** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[20] Bwrdd Rhaglen Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (2008) **The Invasive Non-Native Species Framework Strategy for Great Britain** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[21] DEFRA (2003) **Review of non-native species policy** [Fel ar 12 Mawrth 2013]

*1981*[22], sy'n rheoli achosion o ryddhau rhywogaethau estron a rhywogaethau estron yn dianc, a *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006*[23] sy'n ei gwneud yn ofynnol bod pob cam a wneir gan gyrff cyhoeddus yn rhoi sylw i fioamrywiaeth.

## Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Cyfrifoldeb gweithgor Rhywogaethau Estron Goresgynnol Cymru yw gweithredu Strategaeth Fframwaith 2008 ar gyfer rhywogaethau goresgynnol estron yng Nghymru. Wedi'i sefydlu yn 2008 ac yn cael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru, mae gan y gweithgor gylch gwaith i[24]:

- Gydlynu a chefnogi camau gweithredu rhanddeiliaid;
- Darparu fforwm ar gyfer datblygu polisi;
- Cydlynu ymchwil i rywogaethau goresgynnol estron;
- Codi ymwybyddiaeth o faterion rhywogaethau goresgynnol estron;
- Asesu effeithiau rhywogaethau goresgynnol estron;
- Gweithredu cynlluniau monitro, gan flaenoriaethu'r gwaith o atal rhywogaethau goresgynnol estron newydd rhag ymsefydlu.

[22] **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** (diwygiwyd 1985, 1991) (Adran 14) [Fel ar 18 Mawrth 2013]
[23] **Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006** (Pennod 16) [Fel ar 18 Mawrth 2013]
[24] Ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron Prydain Fawr, **Gweithgor Cymru** [Fel ar 15 Mawrth 2013]

Nid oes unrhyw sôn penodol am rywogaethau goresgynnol estron yn y Strategaeth Amgylcheddol i Gymru 2006[25] na'r ddogfen ymgynghori Cymru Fyw 2012[26] ond mae'r ddwy ddogfen yn cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau ecosystem a bioamrywiaeth Cymru, gyda'r targed penodol i roi stop ar golli bioamrywiaeth ac adfer colledion sydd eisoes wedi digwydd erbyn 2026.[27]

Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, John Griffiths, gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau gwerth £ 1 miliwn ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo iechyd ecosystemau yng Nghymru. Gwnaeth ei ddatganiad ysgrifenedig sôn yn benodol am rywogaethau goresgynnol estron fel her allweddol y bydd y prosiectau a ariennir yn canolbwyntio arni.[28]

[25] Llywodraeth Cymru (2016) **Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[26] Llywodraeth Cymru (2012) **Cymru Fyw – Fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd, Dogfen ymgynghori** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[27] Llywodraeth Cymru (2008) **Cynllun Gweithredu Strategaeth Amgylcheddol 2008 – 2011** [Fel ar 15 Mawrth 2013]
[28] Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Mai 2012 **Cronfa gwydnwch ac amrywiaeth ecosystemau yn gyson â 'Cymru Fyw'** [Fel ar 18 Mawrth 2013]

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Rywogaethau goresgynnol estron**, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@Wales.gov.uk**), Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- **Gwefan** Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Goresgynnol Estron
- **Gwefan** Cymru Fyw Llywodraeth Cymru
- **Gwefan** Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol
- **Gwefan** Rhywogaethau Goresgynnol y Comisiwn Ewropeaidd

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i:
**Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 13/0730**